
# Strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Canolbarth a Gorllewin Cymru.

# 2023-2027






## Fersiwn Darllen Hawdd.



Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â rhoi diwedd ar:

- trais yn erbyn menywod
- cam-drin domestig a
- thrais rhywiol

a rhoi cefnogaeth i'r rhai sydd ei hangen hi.




Mae'r llyfryn Darllen Hawdd yma yn dangos sut rydyn ni eisiau gwneud hyn yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru.




Rydyn ni eisiau diolch i bawb sydd wedi helpu ni gyda'n cynllun ni.



Gwnaethon ni edrych ar y cyfreithiau a'r cynlluniau yng Nghymru a'r Deyrnas Unedig i'n helpu ni i ysgrifennu'r cynllun yma.




Gwnaethon ni weithio gyda gwasanaethau cymorth, yr heddlu, awdurdodau lleol, byrddau iechyd ac eraill.

# Beth gwnaethon ni'n dda yn 2018-2022.



Cynghorydd rhanbarthol i'n helpu ni i weithio'n well a dod â gwasanaethau at ei gilydd.



Gweithio gyda'n gilydd yn well, rhannu syniadau ac adnoddau.



Gwnaethon ni weithio ar draws y rhanbarth i helpu camdrinwyr i roi'r gorau i gam-drin.



Gwnaethon ni gytuno sut y byddwn ni'n talu am brosiectau ar draws y rhanbarth.



Gwnaethon ni edrych ar sut rydyn ni'n cael ein rheoli. Mae hyn wedi ein helpu ni i wneud ein gwaith ni'n well.



Mae pecyn cymorth newydd i atal stelcian ac aflonyddu gennym ni.



Cawsom £2 filiwn ychwanegol ar gyfer gwasanaethau i gefnogi pobl sydd wedi cael eu cam-drin.



Mae gennym ni 2 weithiwr cymorth **BAWSO** newydd i weithio gyda phobl o gymunedau gwahanol.



Gwnaethon ni edrych ar sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u talu amdanyn nhw. Arweiniodd hyn at strategaeth ranbarthol newydd i gynllunio a thalu am wasanaethau.



Gwasanaeth newydd i helpu a chefnogi pobl sydd angen cymorth gan eu meddyg teulu nhw.



Gweithio gyda darparwyr tai i gefnogi pobl hŷn i fynd i fan diogel.



Mae gennym gynllun newydd i atal plant rhag cam-drin eu rhieni.



Llysgenhadon cymunedol sy'n gweithio gyda siopau gwallt a harddwch.



**Y rhaglen Myriad,** sy'n cefnogi pobl **LHDTC** i wella ar ôl cael eu cam-drin.




Ffyrdd newydd o roi tystiolaeth o fan diogel.

# Ein hegwyddorion ni



Gwnaethon ni weithio gyda phawb i gytuno ar ein hegwyddorion ni.




Gwnaethon ni ddewis 11 egwyddor sy'n dweud wrthyn ni sut i wneud ein gwaith gorau y gallwn ni.



- Gwrando ar bobl sydd wedi goroesi cam-drin



- Gweithio gyda phawb mewn cymdeithas



- Cydraddoldeb



- Meddwl am fywydau pobl yn eu cyfanrwydd, nid dim ond un rhan o'u bywydau nhw



- Gweithio gyda'n gilydd



- Dealltwriaeth dda iawn o gam-drin



- Gweithio gyda phobl cyn i gam-drin ddigwydd i atal hynny rhag digwydd.



- Deall trawma



- Atal trais gan ddynion



- Bod yn arweinwyr



- Bod yn gynaliadwy



Rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr ein bod ni bob amser yn dysgu ac yn tyfu gyda'n gwaith ni.

## Siaradodd goroeswyr am:



Gwnaethon ni siarad â 26 o oroeswyr wrth i ni ysgrifennu'r cynllun yma.

Gwnaethon nhw ddweud wrthyn ni:



- Dydy e ddim bob amser yn hawdd cael gwasanaeth.



- Yr effaith a gafodd ar eu plant nhw.



- Profiadau da gyda staff sydd wedi helpu nhw.



- Profiadau gwael gyda'r heddlu a'r gwasanaethau cymdeithasol. Doedden nhw ddim yn meddwl yr oedd ganddyn nhw ddigon o wybodaeth.



- Yr angen am gael amrywiaeth o fannau diogel i aros.




- Gwybodaeth dda fel bod pawb gan gynnwys teuluoedd a ffrindiau yn gwybod beth yw cam-drin.



- Mae angen i fwy o bobl fod yn ymwybodol o gam-drin.



- Mae angen gwasanaethau cymorth ar gyfer yr holl ddioddefwyr trais a cham-drin.

# Amcanion



Mae amcanion yn nodau rydyn ni wedi'u gosod ar gyfer ein hunain.



1. Gwneud i'r cyhoedd feddwl am eu hagweddau eu hunain at gam-drin a thrais yn erbyn menywod.



2. Dysgu plant am berthnasoedd diogel a chyfartal.



3. Edrych ar gefnogi pobl sy'n ymosodol ac yn dreisgar i'w hatal nhw rhag gwneud hynny eto.



4. Mae newid pethau'n gynnar ac atal cam-drin rhag digwydd yn bwysig.



5. Hyfforddi gweithwyr proffesiynol a staff fel eu bod nhw'n helpu pobl sydd wedi cael eu cam-drin.




6. Gwneud yn siŵr bod pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn cael gwasanaeth da sy'n iawn iddyn nhw.


# Pwy fydd yn sicrhau bod hyn yn digwydd?

Gweithrediaeth Diogelu Canolbarth a Gorllewin Cymru sydd wrth y llyw.



Byddwn ni'n gweithio gyda llawer o grwpiau gwahanol i wneud i'r cynllun hwn ddigwydd.






- Pedwar Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus
- Dau Fwrdd Partneriaethau Rhanbarthol
- Dau Fwrdd Gweithredol Bwrdd Iechyd
- Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol
- Bwrdd Rheoli Troseddwyr Integredig Rhanbarthol
- Y ddau Fwrdd Cynllunio Ardal (Camddefnyddio Sylweddau)
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed Powys
- Bwrdd Atal Hunanladdiad a Hunan-niweidio



Byddwn ni'n cael ffordd newydd o weld a ydyn ni wedi gwneud popeth y gwnaethon ni ddweud y bydden ni'n ei wneud.

**Byddwn ni'n:**


1. **Gwneud i'r cyhoedd feddwl am eu hagweddau eu hunain at gam-drin a thrais yn erbyn menywod.**


| | **Beth fyddwn ni'n ei wneud:** | **Sut fyddwn ni'n gwybod ei bod e wedi gweithio:** |
|---|---|---|
|  | Cael cynllun cyfathrebu da ar draws yr ardal. | Bydd gennym ni'r un negeseuon ar draws yr ardal. Gallwch chi weld ein negeseuon yn y gymuned, ar-lein a gyda'n partneriaid ni.<br>Bydd gennym ni gynllun bob blwyddyn. |
|   | Dweud wrth gwmnïau am gam-drin a chefnogi nhw i gael polisïau a chefnogaeth ar gyfer eu gweithwyr. | Byddwn ni'n gweld:<br>• Polisïau gwaith newydd am gam-drin.<br>• Mwy o bobl yn gofyn am help. |

| 2. Dysgu plant am berthnasoedd diogel a chyfartal. | | |
|---|---|---|
|  | Cefnogi'r dosbarthiadau newydd ar berthnasoedd a rhywioldeb. | Byddwn ni'n:<br>• Parhau i gefnogi syniad Llywodraeth Cymru o berthynas iach.<br>• Dal ati i gefnogi pawb i gael perthnasoedd iach a diogel yn eu bywydau.<br>Cael darparwyr cymorth i gefnogi'r dosbarthiadau newydd. |

| | | |
|---|---|---|
|  | Gweithio gyda grwpiau cymunedol fel ffermwyr ifanc, clybiau ieuenctid a chynghorau ieuenctid. | Byddwn ni'n gweld:<br>• Negeseuon clir am berthnasoedd ar gyfer y plant i gyd.<br>• Bydd plant a phobl ifanc yn gwybod am berthnasoedd iach. |
|  | Rhannu’r hyn rydyn ni'n ei ddysgu ar draws yr ardal i wneud gwasanaethau’n well pan fyddan nhw'n addysgu am berthnasoedd iach. | • Bydd mwy o bobl yn gwybod am gam-drin.<br>• Cefnogaeth well i weithwyr sy'n cael eu cam-drin.<br>• Mwy o bobl yn cael cymorth ar gyfer cam-drin. |

| 3. Edrych ar gefnogi pobl sy'n ymosodol ac yn dreisgar i'w hatal nhw rhag gwneud hynny eto. | | |
|---|---|---|
|  | Dysgu mwy am yr hyn sy'n helpu camdrinwyr i roi'r gorau iddi. | Bydd gennym ni:<br>• Ddealltwriaeth well o'r hyn sy'n helpu camdrinwyr i roi'r gorau iddi.<br>• Ffyrdd da o helpu camdrinwyr i roi'r gorau iddi.<br>• Byddwn ni wedi helpu Llywodraeth Cymru i ddysgu beth sy'n helpu pobl i roi'r gorau iddi. |
|  | Gwneud yn siŵr bod gweithwyr proffesiynol yn gwybod beth sydd ar gael i gefnogi camdrinwyr i roi'r gorau iddi. | Byddwn ni'n gweld:<br>• Mwy o bobl yn defnyddio gwasanaethau cymorth.<br>• Llai o gamdrinwyr.<br>• Pobl yn cael eu cadw'n ddiogel. |

<table>
<tr><td></td><td>Bod yn rhan o ymgyrch genedlaethol i annog camdrinwyr i ofyn am help.</td><td>Byddwn ni'n gweld:<br>Yr un neges ar draws Cymru.<br>Mwy o bobl yn gofyn am help.</td></tr>
<tr><td></td><td>Gweithio gyda gwasanaethau eraill yng Nghymru i wella gwasanaethau.</td><td>Byddwn ni'n gweld:<br>Cynllun Cymru gyfan i atal camdrinwyr rhag cam-drin.</td></tr>
<tr><td colspan="3">4. Mae newid pethau’n gynnar ac atal cam-drin rhag digwydd yn bwysig.</td></tr>
<tr><td></td><td>Cael cynllun fel bod meddygon teulu yn gallu gweithredu'n gynnar.</td><td>Bydd meddygon teulu yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn ymyrryd yn gynnar.</td></tr>
</table>

| | | |
|---|---|---|
|  | Dechrau Rhaglen Llysgenhadon Cymunedol. | Byddwn ni'n dod o hyd i bobl sy'n cael eu cam-drin yn gynharach. |
| 1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY | Tyfu Mentrau 'Paid â Chadw'n Dawel' Prifysgol Aberystwyth. | Bydd gennym ni strydoedd a chymunedau mwy diogel. |
|  | Dechrau rôl cynghorydd cam-drin domestig annibynnol mewn ysbytai. | Byddwn ni'n gweld mwy o gleifion sy'n gallu rhoi gwybod am gam-drin.<br>Mwy o staff yn rhoi gwybod am gam-drin.<br>Bydd staff yn gwybod mwy ac yn gallu helpu mwy. |

| | | |
|---|---|---|
|  | Dysgu bechgyn a dynion ifanc sut i atal trais gan ddynion. | Bydd bechgyn yn deall caniatâd a pherthnasoedd iach. |
|  | Edrych ar sut i addysgu merched am hawliau a grymuso. | Bydd merched yn gwybod eu hawliau a ble i ddod o hyd i wybodaeth dda. |
|  | Cefnogi plant sy'n cam-drin. | Bydd gennym ni gefnogaeth dda i blant ar draws yr ardal. |
|  | Gwneud yn siŵr ein bod ni'n gweithio'n dda gyda thimau cymorth tai | Byddwn ni'n gwybod pwy sydd angen cymorth tai yn gynharach. Bydd staff yn fwy hyderus i helpu. |

| | | |
|---|---|---|
|  | Sicrhau bod pobl yn gwybod y gall rhai goroeswyr deimlo fel lladd eu hunain. | Bydd ffyrdd gwell o ddod o hyd i gefnogaeth pan fydd pobl yn teimlo mor wael y byddant efallai yn niweidio eu hunain. |
|  | Dysgu o'r hyn sy'n digwydd pan fydd rhywun yn marw oherwydd cam-drin domestig. | Mae gwasanaethau lleol a chenedlaethol yn gweithio'n well. |

| **5. Hyfforddi gweithwyr proffesiynol a staff fel eu bod nhw'n helpu pobl sydd wedi cael eu cam-drin.** | | |
|---|---|---|
|  | Mae rhaglen hyfforddi Cymru gyfan.<br>Mae angen i ni sicrhau bod pawb yn defnyddio fe. | Gwneud staff yn fwy hyderus i weithio gyda phobl sydd wedi cael eu cam-drin.<br>Bydd mwy o bobl sydd wedi cael eu cam-drin yn gofyn am help. |
|  | Gwneud yn siŵr bod staff yn gwybod mwy am gam-drin | Mae staff yn fwy ymwybodol o gam-drin.<br>Mae pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn cael eu cadw'n ddiogel.<br>Mae mwy o bobl yn dod i ofyn am help. |
|  | Rhoi cynnig ar hyfforddiant gwell i ddysgu am bobl hŷn. | Edrych ar hyfforddiant realiti rhithwir Dewis.<br>Sicrhau bod yr hyfforddiant ar gyfer y rhanbarth cyfan. |


| | | |
|---|---|---|
|  | Sicrhau bod staff yn ein hardal yn cael eu hyfforddi ar gam-drin. | Gwella dealltwriaeth o drais a cham-drin. Mwy o atgyfeiriadau i wasanaethau arbenigol. |
|  | Sicrhau bod barnwyr a llysoedd yn gwybod am gam-drin. | Helpu'r Farnwriaeth i ddeall cam-drin. Mae pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn cael dyfodol gwell. |
|  | Cefnogi goroeswyr o gymunedau amrywiol. | Cefnogaeth dda i bawb. |

| **6. Gwneud yn siŵr bod pobl sydd wedi cael eu cam-drin yn cael gwasanaeth da sy'n iawn iddyn nhw.** | | |
|---|---|---|
|  | Sicrhau bod pawb yn gwybod pa mor bwysig yw hi i weithio gyda phobl ifanc. Sicrhau bod gan bob gwasanaeth wasanaethau da i blant. | Byddwn ni'n gweld hyfforddiant gwell i blant. Byddwn ni'n cytuno ar y ffordd orau o dalu am wasanaethau i bobl ifanc. |
|  | Darparu gwasanaethau da i bobl hŷn yn ein rhanbarth ni. | Byddwn ni'n gweld gwasanaethau gwell i bobl hŷn. |
|   | Byddwn ni'n sicrhau bod model y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol yn cael ei ddefnyddio gan bawb. | Bydd staff yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r model newydd. |

| | | |
|---|---|---|
|  | Dysgu o'r adolygiad o gynghorwyr trais rhywiol annibynnol. | Gwasanaethau gwell i bobl yn ein hardal ni. |
|  | Mae Ymgyrch Soteria yn ffordd newydd o ymchwilio i dreisio. Byddwn ni'n gwneud yn siŵr bod pob gwasanaeth yn defnyddio hyn. | Bydd gweithio gyda'r heddlu a'r llysoedd yn haws i bobl sydd wedi cael eu cam-drin. |
|  | Adeiladu Grwpiau Cefnogi Cymheiriaid. | Canlyniadau gwell i'r rhai sydd wedi goroesi cam-drin. |
|  | Dod o hyd i arian i dalu am fannau diogel i bobl aros ynddyn nhw. | Bydd mwy o fannau diogel i bobl aros ynddyn nhw. |

| | | |
|---|---|---|
|  | Sicrhau bod gwasanaethau da ar gael i bobl o gymunedau gwahanol. | Gwasanaethau da ar draws ein hardal ni ar gyfer pobl o gymunedau gwahanol.<br>Canlyniadau gwell i bawb. |
|  | Dydy rhai pobl sy'n teithio o wlad arall ddim yn gallu defnyddio gwasanaethau fel iechyd a gofal cymdeithasol.<br>Byddwn ni'n edrych ar ffyrdd y gallwn ni weithio gyda nhw. | Byddwn ni'n sicrhau bod pawb yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru yn gallu cael gwasanaeth da.<br>Mae'r bobl sydd ddim yn gallu cael gwasanaeth yn dechrau cael gwasanaeth. |

| | | |
|---|---|---|
|  | Siarad â phobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws (LHDTC) am gam-drin. | Cefnogaeth well i oroeswyr cam-drin LHDTC. |
|  | Cael gwybod am gamfanteisio rhywiol yn ein hardal ni a pha gymorth sydd ei angen ar bobl. | Bydd staff yn gwybod mwy ac yn gallu cefnogi pobl yn well. |
|  | Efallai y bydd angen cymorth ar rai pobl sydd wedi cael eu cam-drin i ymdrin â'u hymddygiad eu hunain hefyd. Mae angen i ni wybod sut i gefnogi pobl pan fydd hyn yn digwydd. | Bydd gwasanaethau'n gweithio yr un ffordd yn ein hardal ni. |

| | | |
|---|---|---|
|  | Dylai cynllunio a thalu am wasanaethau fod yr un peth ar draws ein rhanbarth ni. | Mae gwasanaethau yr un peth ar draws Canolbarth a Gorllewin Cymru. Mae pawb yn cael mynediad teg i wasanaethau. |
|  | Sicrhau bod digon o arian i dalu am y gwasanaethau yn y cynllun hwn. | Defnyddio arian yn well ar draws y rhanbarth. Defnyddio arian Llywodraeth Cymru i dalu am wasanaethau da. |

| **Ariannu a chynllunio da ar gyfer y dyfodol.** | | |
|---|---|---|
|  | Mae Llywodraeth Cymru yn edrych ar sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio a'u hariannu. Byddwn ni'n gweithio gyda nhw. | Bydd y ffordd o gynllunio a thalu am wasanaethau yr un peth ar draws Cymru. |
|  | Sicrhau bod timau a gwasanaethau lleol a rhanbarthol yn gweithio gyda'i gilydd yn dda. | Byddwn yn gwneud y mwyaf o'r arian sydd gennym ni ar gyfer gwasanaethau. |
| Llywodraeth Cymru Welsh Government | Rhoi gwybod i Lywodraeth Cymru beth rydyn ni'n ei wneud yn dda fel y gall pobl eraill yng Nghymru ddysgu oddi wrthyn ni. | Byddwn ni'n helpu i wneud cynllun ariannu Cymru gyfan. |

| Cynllunio a rhedeg gwasanaethau yn dda | | |
|---|---|---|
|  | Adrodd sut rydyn ni'n rhedeg ein gwasanaethau i'r Bwrdd Partneriaethau Cenedlaethol. | Bydd gennym ni grŵp rhanbarthol a fydd yn adrodd i grŵp Cymru. Bydd yr hyn rydyn ni'n ei wneud yn helpu i greu cynllun Cymru gyfan newydd i roi diwedd ar drais yn erbyn menywod. |
|  | Dylai'r hyn rydyn ni'n ei wneud yn dda yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru gael ei rannu ar draws Cymru. | Bydd gennym ni le ar 6 bwrdd gwaith yng Nghymru. Bydd gwaith yn ein hardal ni'n helpu ar draws Cymru. |
|  | Cadw a chryfhau ein cysylltiadau gyda byrddau yn ein hardal ni. | Byddwn ni'n gweithio'n dda ar draws ein rhanbarth ni. |

| | | |
|---|---|---|
|  | Bydd gennym ni gynllun i wirio ein bod ni'n gwneud popeth sydd yn y llyfryn yma. | Gallwn ni ddangos pa mor dda rydyn ni'n ei wneud yn lleol ac i Gymru. |

| **Gweithio gyda phobl sydd wedi goroesi cam-drin** | | |
|---|---|---|
|  | Byddwn ni'n gweithio'n well gyda phobl sydd wedi cael eu cam-drin. Byddwn ni'n dod o hyd i ffyrdd o gynnwys pobl ifanc mewn cynllunio gwasanaethau. | Bydd gennym ni gynllun i weithio gyda phawb. Bydd gennym ni ffordd i bobl sydd wedi cael eu cam-drin leisio eu barn a helpu i wella gwasanaethau. |